Taff Housing Association
Cymdeithas Tai Taf

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 31.03.2019

#notjusthousing

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd | 2 |
| Bwrw golwg yn ôl ar y 19 mlynedd ddiwethaf | 3 - 4 |
| Asedau a Chydymffurfiaeth | 7 |
| Tai a Llais Tenantiaid | 8 |
| Datblygu | 9 |
| Cymorth | 10 - 11 |
| Cymunedau | 12 |
| Ein Pobl | 13 |
| Gwobrau | 15 - 16 |
| Technoleg Gwybodaeth, Diogelwch Data a Risg | 17 - 18 |
| Crynodeb Ariannol | 19 - 22 |

# Rhagair gan y Cadeirydd

**Yn ôl unrhyw ffon fesur bu 2018-19 yn flwyddyn o newid mawr i Gymdeithas Tai Taf. Ym mis Mehefin fe wnaethom ganu'n iach gyda Elaine Ballard, ein Prif Weithredydd am yr 20 mlynedd ddiwethaf. Cyflawnodd Elaine bethau rhyfeddol i Taf. I mi, ei hetifeddiaeth barhaus fydd y gwerthoedd y mae pawb ohonom yn anelu atynt a'r effaith gadarnhaol enfawr yr ydym yn parhau i'w chael i bobl a chymunedau yng Nghaerdydd a thu hwnt.**

Bu hefyd yn flwyddyn o gydnabyddiaeth na welwyd ei debyg ar gyfer ein Tenantiaid a staff o'u cymheiriaid yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Ymysg gwobrau eraill, cafodd Taf eu rhestru ymhlith landlordiaid gorau y Deyrnas Unedig gan gylchgrawn 24 housing yn y 33fed lle yn gyffredinol a'r 2il sefydliad yng Nghymru. Enwyd Abdi Segulle, Rheolwr Cynllun T Môr Coch yn Fodel Rôl Cymunedol yng Ngwobrau Amrywiaeth 24 Housing ac enillodd T Enfys wobr Tîm Gofal a Chymorth y Flwyddyn (<5,000 cartref) yng Ngwobrau Arwyr Tai 2018. Mae cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol wedi parhau i 2019.

Rydym hefyd yn croesawu Prif Weithredydd newydd, Helen White, a gaiff ei chydnabod yn eang yng Nghymru a thu hwnt fel arweinydd ifanc rhagorol. Ei ffocws fydd adeiladu ar etifeddiaeth Elaine a sicrhau fod Taf yn parhau'n lle gwych i weithio. Bydd hefyd mewn sefyllfa dda i fynd allan i'r byd tai ehangach wrth i'r sector ymateb i'r Adolygiad Tai Fforddiadwy a gynhaliwyd yn ddiweddar ac effaith anhysbys hyd yma Brexit, i enwi dim ond dwy her fawr.

Hon yw fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd a hoffwn ddiolch i bawb sy'n gwneud Taf yn sefydliad mor ysbrydoledig a 'sefyll allan'. Bu staff yn rhagorol wrth gyflawni gwasanaethau o'r radd flaenaf. Mae ein cynrychiolwyr Tenantiaid ymysg y mwyaf effeithlon i mi ddod ar eu traws mewn 30 mlynedd. Diolch personol i Amanda Jones am ei holl waith diflino i fy nghefnogi fi a'r Bwrdd.

Mae hyn yn arwain at fy niolch terfynol i fy arwyr tawel personol - fy nghyd Aelodau Bwrdd sy'n gwneud gwaith enfawr i sicrhau y caiff Taf ei ystyried fel sefydliad gwych i weithio gydag ef - o Lywodraeth Cymru a'r Rheoleiddiwr hyd at ein Cyngor a phartneriaid darparu eraill. Gwn ein bod i gyd yn ymroddedig i wneud yn si r fod Taf yn adeiladu ar y gorffennol tra'n parhau i arloesi ar gyfer y dyfodol.



**Keith Edwards**



# 19 mlynedd dan arweinyddiaeth Elaine

**Ar 2 Ionawr 2000, roeddem yn dechrau ar fileniwm newydd sbon. Roedd dathliadau Nos Calan tu ôl i ni, roedd rhybuddion dybryd am 'fygiau mileniwm' heb ddigwydd ac roeddem ar ddechrau cyntaf canrif newydd, gyffrous. Hwn hefyd oedd y diwrnod yr ymunodd Elaine Ballard â Chymdeithas Tai Taf fel ein Prif Weithredydd ac felly roeddem ninnau ar ddechrau taith newydd, gyffrous gydag arweinydd newydd sbon.**

Yn gynharach eleni, penderfynodd Elaine ei bod yn mynd i ymddeol ac ar 28 Mehefin 2019 fe wnaethom ffarwelio gyda rhywun sydd wedi ein hysbrydoli a'n harwain at bethau mwy a gwell am dros 19 mlynedd. Ac am daith a fu! Felly roeddem eisiau manteisio ar y cyfle hwn i ddweud 'Diolch Elaine! Rydym mor falch o bwy ydym a'r hyn a wnawn a fedrem ni ddim bod wedi gwneud dim o hyn heboch!'



**Elaine Ballard**



## FELLY BETH DDIGWYDDODD DAN ARWEINYDDIAETH ELAINE?

Wel, fe wnaethom dyfu! A thyfu! Tyfodd ein trosiant blynyddol bedair gwaith trosodd o £3 miliwn yn 2000 i £12 miliwn yn 2018. Cynyddodd ein gweithlu gan 173% enfawr fel bod Taf erbyn heddiw yn cyflogi 172 o bobl. Fe wnaethom sicrhau £50 miliwn o fenthyciadau a'n galluogodd i adeiladu 583 o gartrefi ychwanegol ar draws Caerdydd. Mae hynny'n gynnydd o 40% yn ein stoc ond hyd yn oed yn bwysicach, mae wedi cynyddu'r nifer o gartrefi diogel a fforddiadwy yng Nghaerdydd lle gall pobl fagu teuluoedd, cyrraedd eu potensial a gwireddu eu breuddwydion. Ehangodd Gwasanaethau Cymorth tu hwnt i bob disgwyliad. O adran fach iawn mewn rhan fach o Gaerdydd, rydym yn awr yn cefnogi 1,000 o bobl y flwyddyn mewn 4 Awdurdod Lleol gwahanol i fyw'n ddiogel ac yn hapus yn eu cartrefi.

Rydym wedi tyfu ond dydyn ni ddim wedi colli cysylltiad gyda'n gwreiddiau. Gweledigaeth, angerdd ac ymrwymiad diysgog Elaine i roi ein Tenantiaid a'n cymunedau wrth galon popeth a wnawn a chred ddi-ildio mewn pobl a'u gallu i greu byd gwell a thecach gyda'n gilydd fu'r egwyddorion sydd wedi ein llywio.

Pan ofynnwyd iddi pam y dewisodd yrfa yn y sector tai, dywedodd Elaine y cafodd ei llygaid eu hagor tra'r oedd yn astudio yng Nghaeredin i fyd a allai fod yn galed, difrifol ac ofnus a wnaeth iddi sylweddoli ei bod eisiau gyrfa yn y sector tai. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio Elaine, mae Tenantiaid a staff yn ddieithriad wedi siarad am ei hangerdd, ei charedigrwydd, ei gwrthodiad llwyr i greu na fedrai pethau fod yn well a'i phenderfyniad i greu sefydliad a fyddai'n rhan o wneud i hynny ddigwydd.

A 19 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r angerdd yn parhau'r un fath. Mae ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth yn parhau'r un fath. Ac mae ein penderfyniad i fod yn rhan dibynadwy o'r cymunedau y mae'n fraint i ni weithio ynddynt yn parhau'r un fath. Diolch i chi, Elaine. Eich etifeddiaeth chi yw hon.

Housing Association created Grŵp Agored

1993



**2000**
Elaine Ballard started as Chief Executive on 2nd January 2000

**2002**
Red Sea House was opened in August 2002. Taff originally developed Red Sea House to provide a service for Somali Elders near their community and to establish networks for the needs of this ethnic group



**2005**
Taff's membership of 'Grŵp Agored' was dissolved and became Taff Housing Association, as we know it today

Taff office moved to its current location in Alexandra House in the heart of Canton in 2005

**2008**
2008 saw the launch of Taff's own kitchen fitting team. Taff realised that by delivering the kitchen improvements directly they could do the work for Tenants more quickly at a reduced cost, as well as guaranteeing the quality

Launch of the Timebanks scheme with Cardiff Blues players, including Sam Warburton, now Wales Captain






**2011**
Taff was crowned 5th Best Workplace overall in the UK in the Great Place to Work survey

**2013**
Taff's first commercial venture, Adore Lettings, was launched

**2014**
Demolition work started on the old Canton Police Station. The brand new Saint Canna development will be opened early in 2016

**2015**
2015 sees Taff's 40th Anniversary Celebrations!

Mae ein Tenantiaid, y cartrefi y maent yn byw ynddynt, y cymunedau y gweithiwn gyda nhw a'r byd y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu magu ynddynt yn hollbwysig i ni.

Pan ydym yn cydweithio gyda'n Tenantiaid a'n cymunedau, credwn nad oes dim byd na allwn ei gyflawni.

# Mae ein ffocws ar ddarparu cartrefi diogel yr ydym yn falch ohonynt ac y mae pobl yn falch i fyw ynddynt.

## ASEDAU A CHYDYMFFURFIAETH

**Cartrefi Diogel**

Rydym yn parhau i gymryd diogelwch eich cartref o ddifri calon. Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar y ‘Chwech Mawr’ ac wedi rhoi blaenoriaeth iddynt ar bob lefel ac o fewn ein timau ymroddedig. Bydd cyflwyno system rheoli cydymffurfiaeth newydd yn rhoi mwy o sicrwydd fod Tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain.

## EIN CHWECH YSTADEGYN MAWR

**Tân** – mae 100% o’r cartrefi sydd angen Asesiad Risg Tân wedi derbyn un.

**Asbestos** - 100% yn cydymffurfio mewn arolygu rhannau cyffredin. Cynhaliwyd arolygon asbestos ar 99% o gartrefi anghenion cyffredinol a gafodd eu hadeiladu cyn 2000 - mae gan 100% ohonynt gynlluniau Rheoli Asbestos yn eu lle os oes angen.

**Trydanol** – 98.51% yn cydymffurfio gyda’r gweddill ar y gweill neu’n mynd rhagddynt.

**Adroddiadau Diogelwch Landlord Nwy** – 99% yn cydymffurfio a 100% wedi eu rheoli neu eu capio.

**Tasgau Rheoli D r** - Legionella - 100% yn cydymffurfio.

**Offer Mecanyddol a Chodi** - 100% o’r lifftiau yn cydymffurfio â LOLER gyda rhaglenni gwasanaethu a chynnal a chadw yn eu lle.

Rydym hefyd wedi cyflwyno matrics newydd Iechyd a Diogelwch ar draws pob lefel o fewn y sefydliad.

**Cartrefi Ansawdd Da**

Mae ansawdd eich cartref mor bwysig â diogelwch eich cartref. Eleni, mae ein holl cartrefi wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Rydym wedi datblygu Strategaeth Rheoli Asedau newydd y bydd y gymdeithas yn ei gweithredu yn 2019. Byddwn yn paratoi rhaglen cyflwr stoc 5 mlynedd i wella ansawdd holl gartrefi Taf ymhellach.

Y sgôr SAP cyfartalog (effeithiolrwydd ynni) ar gyfer ein cartrefi yw 77 - mae hyn 12 pwynt SAP yn uwch na’r 65 gofynnol. Ond rydym yn gweithio i wneud hyd yn oed yn well ac mae ein ffocws ar gynyddu effeithiolrwydd ynni i gyflawni safonau’r dyfodol.

## YSTADEGAU ALLWEDDOL...

**100%**

**100% cartrefi wedi cyrraedd safon SATC**

**Roedd sgôr cyfartalog Effeithiolrwydd Ariannol (SAP) yn 77**

**77**

12 yn uwch na’r safon gofynnol o 65.


# Dywedoch chi, gwnaethom ni, dyma'r canlyniad

## TAI A LLAIS TENANTIAID


Cawsom flwyddyn wych yn 2018/19 yn gwrando ar eich barn a'ch sylwadau ac rydym wedi gweithio gyda'r Panel Craffu Tenantiaid i baratoi darnau o waith sydd wedi gwella gwasanaethau ar draws y busnes.

Drwy weithio gyda'r Panel Craffu Tenantiaid, fe wnaethom sylweddol y gallai ein Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid fod yn fwy effeithiol. Fe wnaethom wrando ac ailstrwythuro ein tîm gan arwain at iddi fod yn rhwyddach i'n ffonio. Rydym yn derbyn 1,200 galwad ffôn y mis ar gyfartaledd ac yn ateb 97% ohonynt mewn 7 eiliad.

Fe wnaeth y Panel hefyd gynhyrchu argymhellion ar gyfer trin ymddygiad gwrthgymdeithasol, fe wnaethom wrando a newid y ffordd y gweithredwn ar gwynion. Drwy roi blaenoriaeth i gynaliadwyedd tenantiaethau a chanolbwyntio ar gydlyniaeth cymunedol, ni fu angen i ni droi neb allan o'u cartrefi oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ac mae 94% o achwynwyr yn awr yn dweud fod ein gwasanaethau yn 'dda' neu 'rhagorol'. Ar hyn o bryd mae'r Panel Craffu yn adolygu ein hunedau gwag a'n proses osod.




Sylweddolwn ei fod yn gyfnod anodd a bod cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi effeithio ar lawer o'n Tenantiaid. Fodd bynnag drwy gefnogi pobl drwy ddull gweithredu a lywir gan drawma, rydym wedi casglu 99% o'r holl rent dyledus sydd wedi arwain at 4,500 o atgyweiriadau wedi eu cwblhau, 49 cegin newydd wedi eu gosod a 24 boeler wedi eu gosod.



**99%** o'r holl rent dyledus = **4,500** atgyweiriad + **49** cegin newydd + **24** boeler wedi eu gosod

**52 o bobl wedi cael cefnogaeth ein gwasanaeth cyngor ar arian am ddim** i gynyddu eu hincwm a gostwng risg colli eu tenantiaeth neu brofi problemau dyled ymhellach.

Cynhaliwyd 7 o ddigwyddiadau naidlen cymunedol yn ein cynlluniau tai gan alluogi Tenantiaid i siarad yn uniongyrchol gyda'u swyddog tai heb apwyntiad.

Yn 2018/19 cafwyd bodlonrwydd Tenantiaid cyffredinol o 93%

Ymddiheuriadau i'r rhai nad oeddent yn fodlon, byddwn yn dal ati i geisio'n galetach.

# Rydym yn chwarae ein rhan

## DATBLYGU

Rydym yn uchelgeisiol, gan symud allan o'n hardal weithredu draddodiadol a pharhau i ddatblygu cartrefi fforddiadwy ansawdd da; chwarae ein rhan i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi.

Mewn cyfnod o ddigartrefedd cynyddol rydym wedi cydweithio gyda'r Wallich, elusen ar gyfer pobl ddigartref, i ailgyflunio gofod diogel sy'n diwallu anghenion eu defnyddwyr gwasanaeth yn well. Rydym wedi cynyddu nifer y lleoedd gwely yn y hostel ar Heol Clare o 10 i 22.


### YR HYN Y GWNAETHOM EI GYFLAWNI YN 2018/2019

- Dechrau gwaith ar y safle yn Heol Casnewydd, Hen Laneirwg
- Dechrau gwaith ar safle yn De Clare Drive, Radur
- Prynu safle ar gyfer 12 o gartrefi yn Grangetown
- Rydym wedi cynnwys y Panel Craffu Tenantiaid yn ein rhaglen datblygu fel y gallwn sicrhau ein bod yn adeiladu cartrefi sy'n diwallu anghenion Tenantiaid y dyfodol.

### CYNLLUNIAU AR GYFER Y FLWYDDYN NESAF 2019/2020


- Byddwn yn cwblhau 19 fflat ac uned fasnachol yn hen siop addurnwyr FA Jones ar Heol Penarth, Grangetown
- Byddwn yn gorffen y fflatiau yn Hen Laneirwg ym mis Tachwedd 2019
- Byddwn yn parhau i ddynodi safleoedd ar gyfer eu datblygu a byddwn yn cyflwyno ceisiadau cynllunio ym mis Mawrth

Ymwelodd Julie James, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, ac un o brosiectau datblygu cyfredol Taf, hen stôr DIY FA Jones ar Heol Penarth. Ar ei hymweliad cyhoeddodd fod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £14.67 miliwn pellach mewn benthyciadau i landlordiaid cymdeithasau i'w helpu i brynu tir i adeiladu mwy o gartrefi ar draws Cymru.



# Fe ddywedom ein bod eisiau gwneud mwy...






## CYMORTH

Fe wnaethom ddynodi yn ein Strategaeth Cymorth ein bod eisiau ehangu ein gwasanaethau cymorth arbenigol i ardaloedd newydd ac fe wnaethom yn union hynny. Ar ôl ennill 4 contract ychwanegol, rydym yn awr yn gweithredu ar draws 4 awdurdod lleol yn Ne Cymru.

## POBL IFANC

Dechreuodd cydweithio consortiwm gyda Byddin yr Iachawdwriaeth a Byddin yr Eglwys gan arwain at Gontract Cymorth a Llety Pobl Ifanc Caerdydd. Fe wnaethom droi 'diwylliant gang' ar ei ben yn ein hostelau a datblygu prosiect 'Gang Genethod' gyda'r menywod ifanc sy'n hyrwyddo hunan-ddelwedd cadarnhaol, hyder ac annibyniaeth. Fe wnaethom hefyd ddatblygu Llwybr Cyflogadwyedd cyffrous a gaiff ei lansio yn ddiweddarach eleni. Yn ogystal â darparu cyfleoedd sgiliau a chyflogaeth, bydd y Llwybr yn galluogi pobl ifanc i brofi pethau newydd a chyflawni eu potensial beth bynnag eu hamgylchiadau neu amgylchiadau.

## TEULUOEDD

Yn dilyn cyfnod treialu llwyddiannus y cynllun Gr  p Gweithredu Tlodi (PAG) ym Mro Morgannwg, buom yn llwyddiannus wrth sicrhau'r prosiect. Mae'r prosiect PAG yn darparu cymorth cysylltiedig â thai i bobl o fewn Bro Morgannwg i'w galluogi i sicrhau neu gynnal y sgiliau a'r hyder maent eu hangen i fedru byw'n annibynnol o fewn eu cartrefi.

## CYN-DROSEDDWYR

Cynlluniwyd S.T.A.R.T. ('Support To Achieve Resettlement Together') i gefnogi unigolion oedd wedi eu rhyddhau o'r stad ddiogel gyda phroblemau'n cysylltiedig â thai, yn cynnwys y rhai sydd dan fygythiad digartrefedd a'r rhai a gafodd eu rhyddhau heb unrhyw gartref sefydlog.

Caiff y gwasanaeth hefyd ei ddylunio i wella gweithredu'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i blant, pobl ifanc ac oedolion yn yr ystâd ddiogel (Llwybr Carcharorion).



*Caption - Names*

## GWASANAETHAU FFOADURIAID

Fe wnaethom dendro'n llwyddiannus i gynyddu'r gwasanaeth ffoaduriaid a ddarparwn yng Nghasnewydd. Nod y prosiect yw cefnogi unigolion o gymunedau lleiafrif ethnig i fyw'n fwy annibynnol o fewn eu cymuned leol, i gynnal a chadw eu cartrefi eu hunain, ac i wella eu hansawdd bywyd, mewn partneriaeth gydag asiantaethau statudol a gwirfoddol.

Yng Nghaerdydd a'r Fro, roeddem yn llwyddiannus wrth ymestyn Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria am drydedd flwyddyn. Rydym yn darparu cefnogaeth barhaus i deuluoedd sy'n cyrraedd o fewn yr ardal yn mabwysiadu dull gweithredu teulu cyfan, gan roi cefnogaeth cyffredinol i bob aelod o'r teuluoedd ac o fewn y cymunedau cynnal.

## CYNLLUNIAU AR GYFER Y FLWYDDYN I DDOD

I barhau i adeiladu ar ein meysydd arbenigedd, ymchwilio partneriaethau newydd a chefnogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

**Ailddatblygiadau**

- Tŷ Môr Coch - rydym wedi dynodi'r angen i addasu ein cynllun i anghenion cymhleth preswylwyr sy'n dod i'r amlwg a gwneud y cynllun hwn yn gyfeillgar i'r dementia
- Tŷ Enfys - rydym yn ymchwilio sut y gallem ddatblygu ein llety ar gyfer mamau ifanc a babanod i ddiwallu eu hanghenion yn well

**Diogelu**

- Rydym yn adolygu ein dull gweithredu diogelu i ateb problemau parhaus a sicrhau ein bod yn cymryd rhan egnïol wrth ddiogelu'r rhai sy'n agored i newid neu sydd mewn risg o ecsbloetiad.

**Hoffwn roi amser i ddweud diolch yn fawr iawn i'ch HOLL staff. Pawb o'r rheolwyr i'r glanhawyr. Rydych yn gwneud gwaith gwych, daliwch ati.**

**Diolch yn fawr iawn i chi am ddewis yr yrfa a wnaethoch oherwydd eich bod yn wirioneddol yn gwneud gwahaniaeth i oedolion ifanc a'u teuluoedd**

**- Defnyddiwr Gwasanaeth**

# Rydym yn Helpu Pobl i Adeiladu eu Dyfodol

## CYMUNEDAU

**Dysgwyr**

Fe wnaethom gynnal 38 cwrs hyfforddiant gyda 304 yn bresennol gyda 94% o'n dysgwyr yn disgrifio eu cwrs fel 'da' neu 'rhagorol'. Aeth 18 dysgwr ymlaen i fynd i'r Brifysgol.



| 38 cwrs hyfforddiant | 304 wedi mynychu | 94% wedi rhoi sgôr da neu rhagorol | 18 wedi mynd i brifysgol |
|---|---|---|---|

**Gwirfoddolwyr**

Rydym wedi dod y gymdeithas tai gyntaf yng Nghymru i gael achrediad Gwobr Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr.

Fe wnaethom gynnal 22 lleoliad i wirfoddolwyr mewn 9 adran wahanol yng Nghymdeithas Tai Taf ac wedi atgyfeirio 26 o bobl i bartneriaid ar gyfer gwirfoddoli.




Proud to be accredited by Investing in Volunteers

## CYMRYD RHAN

**2 diwrnod hwyl am ddim i'r teulu**

gyda dros 1,000 o Denantiaid ac aelodau'r gymuned yn bresennol.



Roeddem eisiau cymryd rhan gyda chynllun lleol Periods in Poverty dan arweiniad myfyrwyr sy'n darparu cynnyrch mislif am ddim i rai na fyddent fel arall yn medru eu fforddio. Yn ogystal ag annog a chasglu cyfraniadau yn fewnol, mae ein prosiectau cymorth Tŷ Enfys a Tŷ Seren ill dau wedi cael budd o'r prosiect.

Periods in Poverty
Misglwyf mewn Tlodi


# Byddwn yn sicrhau fod gan ein staff y sgiliau i ddarparu gwasanaethau sy'n eich cadw'n ddiogel

## GWASANAETHAU POBL


Rydym yn ymroddedig i fuddsoddi mewn datblygu staff ac eleni fe wnaethom groesawu Swyddog Dysgu a Datblygu arbennig i'r Tîm Gwasanaethau Pobl. Yn 2018/19, fe wnaethom:

Buddsoddi £104,323 mewn hyfforddiant staff = £640 fesul aelod o staff. Arweiniodd hyn at

**12 dyrchafiad mewnol**




**12 aelod staff wedi ymrestru ar brentisiaethau**



Rydym yn ymroddedig i greu gweithlu lle gall pobl ffynnu. Fel rhan o hyn rydym wedi adolygu a newid ein proses sefydlu i roi sylw i fanteision gweithio i Gymdeithas Tai Taf.

Bydd y broses hon yn parhau i'r flwyddyn nesaf a chaiff ei chynllunio i wella cyfraddau cadw a hybu ymgysylltu cyffredinol aelodau o staff. Mae arwyddion cynnar yn dangos y fod y ffordd hon o weithio yn effeithlon, gyda chyfradd ymateb o 71% o'n harolwg staff.

Fe wnaethom gynnal ymgyrchoedd recriwtio eleni gyda chyfradd ymateb o 71% o'n harolwg staff. Fe wnaethom gynnal ymgyrchoedd recriwtio eleni i sicrhau fod y bobl gywir gennym i ddarparu gwasanaethau fydd yn eich cadw'n ddiogell.



Byddwn yn cefnogi ac annog datrysiadau arloesol a chreadigol a gaiff eu gyrru gan ein pobl.

Rydym yn credu mewn arweinyddiaeth ar bob lefel a gyda'r bobl gywir yn yr ystafell gallwn gyflawni unrhyw beth.

# Awards

| Gwobr | Categori | Y sawl a enwebwyd | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Amrywiaeth 24 Housing | Community Role Model | Abdi Segulle | **Enillydd** |
| Arwyr Tai | Tîm Gofal a Chymorth y Flwyddyn <5,000 cartref | T  Enfys | **Enillydd** |
| WCVA | Gwirfoddolwr y Flwyddyn | Laura Kilvingon | **Enillydd** |
| Cymorth Cymru Hyrwyddo Annibyniaeth | Cydweithiwr Ysbrydoledig Antonia Watson | Jackie Amos | **Enillydd** |
| Cymorth Cymru Hyrwyddo Annibyniaeth | Cyflawniad Person | Stephen Dyer | **Enillydd** |
| Cylchgrawn 24 Housing | Landlordiaid Gorau y Deyrnas Unedig | Tai Taf - 33 lle drwyddi draw a'r 2il Gymdeithas Tai yng Nghymru | **Enillydd** |
| UK Housing | Cyflogaeth a Hyfforddiant Preswylwyr | Adeiladu Dyfodol | **Enillydd** |

| Gwobr | Categori | Y sawl a enwebwyd | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| Gwobrau 24 Housing | Cynllun Hyfforddiant Gorau | Adeiladu Dyfodol | **Rownd Derfynol** |
| Gwobrau 24 Housing | Darparydd Gofal a Chymorth Gorau | Tŷ Seren | **Rownd Derfynol** |
| Gwobrau Arwain Cymru | Ysbrydoli Arweinyddiaeth Wych | Tai Tâf | **Cymeradwyaeth Uchel** |
| Cyfranogiad TPAS Cymru | Prosiect Cymunedol Gorau | Cydweithfa Bwyd Co-op | **Rownd Derfynol** |
| Tai Cymru CIH | Hyrwyddwyr Tenantiaid | Cydweithfa Bwyd Co-op | **Rownd Derfynol** |
| Tai Cymru CIH | Gorau yn y Rhestr Rhent Preifat | Adore Caerdydd | **Rownd Derfynol** |
| UK Housing | Landlord Arloesol y Flwyddyn | Tîm Fforensig | **Rownd Derfynol** |
| UK Housing | Prosiect Digartrefedd y Flwyddyn <4,000 cartref | Tŷ Seren a Tŷ Enfys | **Rownd Derfynol** |

# We invested in the right tools and equipment to empower staff to deliver quality services

## GDPR

Rydym wedi sicrhau y cafodd ein holl staff a gwirfoddolwyr hyfforddiant GDPR i sicrhau eu bod yn deall pa mor bwysig yw hi y caiff eich data ei diogelu.

## FE WNAETHOM UWCHRADDIO EIN SYSTEMAU

I'r fersiynau diweddaraf i wella'r gwasanaethau a ddarparwn.

## DIOGELWCH SEIBR

Rydym yn cyfathrebu Ymwybyddiaeth Diogelwch Seibr yn rheolaidd drwy drin bygythiadau sy'n datblygu i'r holl staff.


Eleni rydym yn gweithio tuag at gyflawni Achrediad Cyber Essentials Plus.

## GWEFAN

Fe wnaethom adolygu'r gwasanaethau digidol a gynigiwn ar hyn o bryd a dynodi'r angen i wella ein gwefan bresennol. Arweiniodd hyn at ddatblygu papur gwybodaeth, gan ymgynghori gyda Thenantiaid, defnyddwyr gwasanaeth ac aiff y safle newydd yn fyw yn 2020.




## FE WNAETHOM BARHAU I DDARPARU CEFNOGAETH FEWNOL ARDDERCHOG AR DECHNOLEG GWYBODAETH DRWY



...recriwtio 1 aelod newydd o staff...




...a datrys 80% o alwadau deg gymorth o fewn 1 diwrnod gwaith.



Fe wnaethom hefyd ddarparu cyfrifiaduron llechen a hyfforddiant ar gyfer y Panel Craffu ar Denantiaid i'w helpu i gynnal adolygiadau gwasanaeth.

# Rheoli ein risgiau a'ch cadw chi a Taf yn ddiogel

## RISG A DIOGELWCH DATA

Eleni fe wnaethom fuddsoddiad sylweddol i ddatblygu ein fframwaith Sicrwydd Risg newydd i wneud yn si r ein bod yn ymdopi risgiau dyddiol rhedeg Taf. Rydym yn awr yn adolygu risg mewn 6 categori:

- Darparu Cynllun Busnes
- Hyfywedd Ariannol
- Iechyd a Diogelwch
- Rheoleiddiol a Chyfreithiol
- Darparu Gwasanaeth Gweithredol
- Digwyddiad Mawr

Rydym wedi buddsoddi mewn meddalwedd a sefydlu tîm arbennig i sicrhau ein bod yn adolygu ac yn gweithredu'n barhaus ar y newid yn yr amgylchedd risg y gweithredwn ynddo fel y gallwch barhau i fyw'n ddiogel yn eich cartrefi, bod ein staff yn gweithio'n ddiogel ac y caiff asedau Taf eu diogelu.

Mae darparu Gwerth am Arian yn ofyniad allweddol ac yn bwysig  i ni. Rydym wedi ymgynghori'n eang ac wedi datblygu egwyddorion llywio ar gyfer ein holl staff i ymrwymo i weithio atynt; sef:

- Gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym - defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol
- Gwneud y pethau cywir drwy wneud pethau gyda'i gilydd - defnyddio ei hadnoddau'n effeithiol
- Gwneud pethau'n iawn - ei chael hi'n iawn i chi y tro cyntaf

# Crynodeb o Ddatganiadau Ariannol

Caiff canlyniadau ariannol 2019 eu nodi ar y dudalen ddilynol. Cafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019 a chafodd Taf adroddiad archwilio glân.

Mae newidiadau allweddol eleni yn cynnwys newidiadau sylweddol i driniaeth cyfrifeg pensiwn. Yn unol â'r gofyniad rydym yn awr yn cyfrif am ein rhwymedigaeth cynllun llawn. Mae hyn wedi creu diffyg o £95,000. Fodd bynnag mae ein gwarged gweithredol sylfaenol wedi parhau i wella, £487,000 yn uwch na 2018 gyda gwarged cyn addasiad pensiwn £497,000 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth Taf yn rhwydd gyflawni gorswm llog cyfamodau ariannol ei fenthycwyr ar 203% a gerio 42%.

# DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR

## Ar gyfer y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2019 | 2018 |
|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 |
| Trosiant | 3 | 12,087 | 11,692 |
| Costau gweithredu | 3 | (9,520) | (9,602) |
| **Gwarged gweithredu** | | 2,567 | 2,090 |
| Enilliad ar waredu eiddo, cyfarpar ac offer | 7 | - | - |
| Llog derbyniadwy | | 13 | 5 |
| Costau llog a chyllido | 8 | (1,420) | (1,414) |
| Symudiad yng ngwerth teg buddsoddiadau | | - | - |
| **Gwarged am y flwyddyn** | | 1,160 | 681 |
| Ailfesur rhwymedigaeth pensiwn | | - | 20 |
| **Incwm Cynhwysfawr arall** | | | |
| Cydnabyddiaeth ddechreuol budd acti-wraidd | | (1,621) | - |
| aml-gyflogwr yng nghyswllt y cynllun pensiwn | | 366 | - |
| **Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | (95) | 701 |

# DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL

## Am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019

| | Nodiadau | 2019 £000 | 2018 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Anheddau | 10 | 105,104 | 99,983 |
| Asedau sefydlog diriaethol eraill | 13 | 2,232 | 2,354 |
| Buddsoddiadau | 12 | 1,142 | 1,142 |
| | | 108,478 | 103,479 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Arian a chyfwerth arian | | 5,139 | 5,582 |
| Dyledwyr masnach a dyledwyr eraill | 14 | 3,834 | 2,716 |
| | | 8,973 | 8,298 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn un flwyddyn | 15 | (8,064) | (10,626) |
| Grantiau tai cymdeithasol a grantiau eraill y llywodraeth: symiau dyledus o fewn un flwyddyn | 18 | (728) | (683) |
| **Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net** | | 181 | (3,011) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | 108,659 | 100,468 |
| Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus ar ôl un flwyddyn | 16 | (32,675) | (30,222) |
| Grant tai cymdeithasol dyledus ar ôl un flwyddyn | 18 | (60,448) | (56,059) |
| Rhwymedigaeth pensiwn dyledus ar ôl un flwyddyn | | - | (1,213) |
| Darpariaeth pensiwn - rhwymedigaeth budd diffiniedig | 24 | (2,657) | - |
| **Cyfanswm asedau net** | | 12,879 | 12,974 |
| **Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn** | | | |
| Cyfalaf Cyfranddaliadau | 21 | - | - |
| Cronfeydd Wrth Gefn Refeniw | 22 | 12,625 | 12,718 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig | | 254 | 256 |
| **Cyfanswm Cyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn** | | 12,879 | 12,974 |

# DATGANIAD NEWIDIADAU I GRONFEYDD WRTH GEFN

Am y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2019

| | Cyfyngedig Cronfeydd Wrth Gefn | Refeniw Cronfa Wrth Gefn | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2019 | 2018 |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Fel ar 1 Ebrill 2018 | 256 | 12,718 | 12,974 | 12,273 |
| Gwarged am y flwyddyn | - | (95) | (95) | 701 |
| Trosglwyddo i/o'r cronfeydd wrth gefn | (1) | 1 | - | - |
| Symudiad yn y flwyddyn | (1) | (94) | (95) | 701 |
| Fel ar 31 Mawrth 2019 | 255 | 12,624 | 12,879 | 12,974 |

#notjustousing

**www.taffhousing.co.uk**

Ffôn 029 2025 9100
Rhadffôn: 0800 121 6064

/TaffHousing @TaffHousing

Cymdeithas Tai Elusennol a gofrestrwyd dan Ddeddf Cymdeithasau Budd Cymunedol 2014 Rhif 21408R
Cofrestrwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif L009
Rhif Cofrestru Elusen: 869 8405 65